RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
13/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/03/2017

# Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014: Gogledd Cymru

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-9249-3

**Teitl: Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014**
**Is-deitl: Gogledd Cymru**
**Awdur: Patience Eastwood**

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Patience Eastwood

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth,

Ceredigion

SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2278

E-bost: patience.eastwood@wales.gsi.gov.uk

## Y Gogledd

| Teithiau (miloedd) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydan Fawr) | 3,488 | 3,655 | +5% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | 235 | 232 | -2% |
| Ymweliadau dydd | 23,667 | 23,333 | -1% |
| Cyfanswm | 27,154 | 26,988 | -1% |

| Gwariant (£ miliwn) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydain Fawr) | 582 | 591 | +2% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | 75 | 76 | +1% |
| Ymweliadau dydd | 722 | 879 | +22% |
| Cyfanswm | 1,379 | 1,546 | +12% |

Mae Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam a Gwynedd oll yn rhan o ranbarth twristiaeth y Gogledd. Mae'r ardal hon yn cynnwys arfordir y Gogledd, Eryri a Phen Llŷn. Bangor a Wrecsam yw'r unig ddinasoedd yn y Gogledd ac mae llawer iawn o'r ardal hon wedi'i gategoreiddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn "bentrefi, yn bentrefannau ac yn anheddau ynysig", gan ddynodi mai natur wledig sydd i'r rhan fwyaf o'r ardal hon. Dim ond Wrecsam a rhannau o Arfordir y Gogledd y mae ONS wedi'u categoreiddio'n "drefol".

Mae twristiaeth yn chwarae rhan hollbwysig yn economi leol y Gogledd, yn arbennig yn yr ardaloedd arfordirol. Mae hyn i'w weld yn y ffigurau cyflogaeth a'r ffigurau stoc gwlâu. Mae i'w weld hefyd yn y ffaith mai â'r rhanbarth hwn y mae 37% o'r holl ymweliadau dros nos o'r DU â Chymru a 28% o'r ymweliadau dydd.

Mae llawer o'r ymwelwyr hynny'n dod o ranbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr/Glannau Mersi, gyda 40% o'r ymweliadau dros nos o'r DU a 29% o'r teithiau dydd i'r Gogledd yn tarddu o'r ardaloedd hyn.

## 1. Ymweliadau dros nos o'r DU

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2012-2014 oni nodir fel arall. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad rhanbarth y Gogledd nad oedd yn cynnwys Meirionnydd.


Mae ymwelydd nodweddiadol o'r DU â'r Gogledd

- ar ei wyliau
- yn fwyaf tebyg yn dod o Ogledd-orllewin Lloegr
- yn debygol o fod yn gwersylla neu'n aros mewn carafán
- yn fwyaf tebyg o aros ar lân y môr
- yn fwyaf tebygol o ymweld yn ystod gwyliau'r haf, h.y. rhwng mis Gorffennaf a mis Medi.

Ers 2006-2008, mae nifer yr ymweliadau dros nos o'r DU â'r Gogledd wedi bod yn codi, a bu 3,655,000 o deithiau'r flwyddyn ar gyfartaledd yn y cyfnod 2012-2014. Mae mwy o ymweliadau dros nos yn cael eu gwneud â'r Gogledd nag ag unrhyw ran arall o Gymru, ac roedd 37% o'r ymweliadau dros nos â Chymru yn 2012-2014 yn rhai â'r Gogledd.


Mae gwariant ar ymweliadau dros nos o'r DU â'r Gogledd hefyd wedi bod yn codi, o £492 miliwn ar gyfartaledd y flwyddyn yn 2006-2008, i £591 miliwn y flwyddyn yn 2012-2014. Roedd swm yr arian a wariwyd ar ymweliadau dros nos â'r Gogledd rhwng 2012 a 2014 yn cyfrif am 36% o'r holl arian a wariwyd ar ymweliadau dros nos â Chymru.

Ffig1.1: Teithiau a Gwariant
(Ymweliadau dros nos o'r DU)





**Diben y Daith**
O'u cymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd, mae cyfran uwch o'r teithiau i'r Gogledd yn deithiau gwyliau ac o ganlyniad mae cyfrannau is o deithiau o fathau eraill fel ymweld â ffrindiau neu'r teulu ac ymweliadau busnes.

Ffig. 1.2: Ymweliadau fesul Chwarter
(Ymweliadau dros nos o'r DU)





Ffig.1.3: Diben yr Ymweliad (Ymweliadau dros nos o'r DU)




**Y Math o Le**
Glan môr yw'r math o le mwyaf poblogaidd ymhlith y sawl sy'n ymweld â'r Gogledd dros nos o'r DU. Mae hanner yr ymwelwyr hynny wedi aros ar lan y môr, ac mae hynny'n gyfran uwch nag unrhyw ran arall o Gymru. Ar y llaw arall, roedd ymweliadau â threfi mawr neu

ddinasoedd yn llawer llai tebygol. O ystyried daearyddiaeth yr ardal, nid yw hyn yn syndod. Mae rhan fawr o arfordir Cymru yn rhychwantu rhanbarth y Gogledd, ond ychydig iawn o ddinasoedd neu drefi mawr sydd yno. Y sawl sy'n ateb yr arolwg sy'n cael dewis categori'r gyrchfan ac felly mae'r dewis hwnnw'n oddrychol. Gallai rhywun roi Llandudno, er enghraifft, o dan y categori "glan môr" neu "tref fach", neu "tref fawr" hyd yn oed, gan ddibynnu ar farn y sawl ar Landudno.

Ffig. 1.4: Y math o le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau dros nos o'r DU)




**Rhanbarth Tarddiad**

Roedd ymwelwyr â'r Gogledd yn llawer mwy tebygol o ddod o ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr/Glannau Mersi. Daeth 4 allan o bob 10 ymwelydd â'r Gogledd o'r ardal hon, ac â'r gogledd yr oedd bron dri chwarter (72%) o'r holl ymweliadau o ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr/Glannau Mersi â Chymru. O ystyried y cysylltiadau trafnidiaeth cryf rhwng Gogledd-orllewin Lloegr a'r Gogledd, yn arbennig arfordir y Gogledd, ni ddylai hyn synnu neb.

Roedd ymwelwyr â'r wlad o Lundain, De-orllewin Lloegr, De-ddwyrain Lloegr a Chymru ei hun yn llawer llai tebygol o aros yn y Gogledd. Yn achos Llundain a De Lloegr, mae hyn fwy na thebyg o ganlyniad, o leiaf yn rhannol, i ddiffyg cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng y rhanbarthau hyn â'r Gogledd.


Tabl 1.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau dros nos o'r DU)

| Rhanbarth Tarddiad | Cyfartaledd Blynyddol Teithiau, (Miloedd) | Cyfran o Holl Teithiau i De-Orllewin Cymru |
|---|---|---|
| Yr Alban | 48 | 1% |
| Cymru | 556 | 15% |
| Gogledd-Ddwyrain Lloegr | 66 | 2% |
| Gogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Mersi | 1,486 | 41% |
| Swydd Efrog / Glannau Humber | 200 | 5% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 224 | 6% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 529 | 14% |
| Dwyrain Lloegr | 139 | 4% |
| Llundain | 83 | 2% |
| De-Ddwyrain Lloegr | 165 | 5% |
| De-Orllewin Lloegr | 160 | 4% |

**Y Math o Lety**

O'i chymharu â Chymru yn ei chyfanrwydd, roedd ymwelwyr â'r Gogledd yn fwy tebygol o wersylla neu aros mewn carafán, ac yn llai tebygol o aros mewn cartref roeddent hwy, ffrind neu berthynas yn berchen arno. Noder bod ymwelwyr a arhosodd yn eu carafán eu hunain wedi'u cynnwys yn y ffigurau "gwersylla a charafanio" yn hytrach nag yn rhan o ffigurau "cartref ei hun/ffrind/perthynas".

Ffig. 1.6: Y Math o Lety (Ymweliadau dros nos o'r DU)



## 2. Ymweliadau Rhyngwladol


Daw data yn yr adran hon o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2010-14 oni nodir fel arall. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad rhanbarth y Gogledd nad oedd yn cynnwys Meirionnydd.

Mae ymwelydd rhyngwladol nodweddiadol â'r Gogledd

- ar ei wyliau
- yn fwyaf tebygol o fod o Weriniaeth Iwerddon, ond mae hefyd yn eithaf tebygol o ddod o UDA, yr Almaen a Ffrainc

Dros y cyfnod 2002-2014, gwelwyd rhywfaint o gynnydd yn yr ymweliadau rhyngwladol â'r Gogledd, ond bu gostyngiad wedyn yn ôl i'r un lefelau yn 2002-2004, gyda 240,000 o ymweliadau'r flwyddyn yn 2002-2004, a 231,000 o ymweliadau'r flwyddyn yn 2012-2014.

Ffig. 2.1: Teithiau a Gwariant (Ymweliadau Rhyngwladol)





Fodd bynnag mae'r gwariant sy'n deillio o ymweliadau rhyngwladol yn dangos rhywfaint o gynnydd ar y cyfan dros y cyfnod hwn, gan godi o £61 miliwn ar gyfartaledd y flwyddyn yn 2002-2004 i £76 miliwn y flwyddyn yn 2012-2014.

**Diben yr Ymweliad**

O'u cymharu â'r cyfrannau ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, roedd llai o ymweliadau busnes rhyngwladol â'r Gogledd a mwy o ymwelwyr rhyngwladol ar eu gwyliau. Roedd cyfrannau mathau eraill o ymwelwyr rhyngwladol yn debyg i'r cyfrannau a welwyd ar lefel Cymru gyfan.


Ffig. 2.2: Diben y Daith (Ymweliadau Rhyngwladol)




**Gwlad Tarddiad**

Y gwledydd tarddiad mwyaf cyffredin ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â'r Gogledd dros y pum mlynedd diwethaf (2010 i 2014) oedd Gweriniaeth Iwerddon, UDA, yr Almaen, Ffrainc, yr Iseldiroedd ac Awstralia, yn y drefn honno. O'r lleoedd hyn y tarddodd bron ddau draean (63%) o'r holl ymwelwyr â'r Gogledd. Yr unig wahaniaeth nodedig o ran tarddle ymwelwyr â'r Gogledd, o'i gymharu â'r ymwelwyr â'r wlad gyfan oedd bod ymwelwyr â'r Gogledd yn fwy tebygol o ddod o Weriniaeth Iwerddon. Y rheswm pennaf am hyn, fwy na thebyg, yw'r cysylltiadau trafnidiaeth (h.y. fferi Caergybi), er y gallai cysylltiadau diwylliannol rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r Gogledd hefyd chwarae ei ran.

Ffig. 2.3: Gwlad Tarddiad Ymwelwyr (Ymweliadau Rhyngwladol)




## 3. Ymweliadau Dydd

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad rhanbarth y Gogledd nad oedd yn cynnwys Meirionnydd.

Ar gyfartaledd, dros y pedair blynedd 2011-2014, cafwyd 24 miliwn o ymweliadau dydd gan dwristiaid â'r Gogledd. Mae hyn yn cyfrif am 28% o'r holl ymweliadau dydd â Chymru. Y gwariant cysylltiedig â'r ymweliadau dydd hyn oedd £804 miliwn y flwyddyn, sef 25% o wariant yr holl ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Nghymru.

**Gweithgareddau**
Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar ymweliad dydd oedd "ymweld â ffrindiau a'r teulu".


Ffig 3.1: Gweithgareddau Cyffredin ar Ymweliad Dydd (Ymweliadau Dydd)




Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn ar o leiaf 2 filiwn o ymweliadau.

**Y Math o Le**
Y math o le yr ymwelwyd amlaf ag ef yn y Gogledd oedd pentref/cefn gwlad, gyda glan môr/arfordir yn ei ddilyn.  Roedd cyfran uwch o ymwelwyr dydd â'r Gogledd yn ymweld â'r categorïau hyn nag unman arall yng Nghymru. Nid yw hyn yn syndod o ystyried natur wledig y rhan fwyaf o'r ardal. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol gwrthgyferbynnu'r canlyniadau hyn â'r rhai ar gyfer ymweliadau dros nos, lle mae gwyliau ar lan y môr yn fwy poblogaidd. Mae hyn yn awgrymu bod glan môr yn lle poblogaidd ymhlith ymwelwyr sy'n aros dros nos ond bod cefn gwlad yn fwy poblogaidd ymhlith y sawl sy'n ymweld am y dydd.

Ffig 3.2: Y Math o Le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau Dydd)




**Rhanbarth Tarddiad**

Tarddodd y gyfran fwyaf o ymweliadau dydd â'r Gogledd o'r Gogledd ei hun. Fodd bynnag, tarddodd lawer o Ogledd-orllewin Lloegr. Roedd y ddau ranbarth hyn, gyda'i gilydd, yn cyfrif am dros ddau draean o'r ymweliadau â'r Gogledd.

Tabl 3.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau Dydd)

| Rhanbarth Tarddiad | Ymweliadau, Miliwn |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 10 |
| Gogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Mersi | 7 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1 |
| De-Orllewin Lloegr | 1 |


Yn cynnwys pob rhanbarth sy'n rhanbarth tarddiad ar gyfer o leiaf 1 miliwn ymweliadau dydd.

Er bod gan y rhan fwyaf o'r rhanbarthau gyfrannau uchel o ymwelwyr o'r rhanbarth ei hun, y Gogledd yw'r unig ranbarth i gael cyfran uchel iawn o ymwelwyr o un rhanbarth arall. Mae hyn yn adlewyrchu'r canlyniadau ar gyfer twristiaeth dros nos o'r DU, lle bo cyfran uchel o ymwelwyr yn dod o Ogledd-orllewin Lloegr.

**Y pellter teithio**

Teithiodd cyfran fawr o'r ymwelwyr dydd â'r Gogledd fwy na 40 milltir, tra â'r rhanbarth hwn y cafwyd y gyfran isaf o ymwelwyr dydd sy'n teithio llai na 5 milltir. Mae hyn yn adlewyrchu, i ryw raddau, ddaearyddiaeth ardal o drefi a phentrefi gweddol wasgaredig. Gallai hefyd adlewyrchu'r gyfran uchel o ymwelwyr o Ogledd-orllewin Lloegr sy'n debygol o deithio ymhellach.


Ffig 3.3: Y Pellter Teithio (Ymweliadau Dydd)




**Dull teithio**

Fel sydd yn wir am bob rhanbarth yng Nghymru, y car yw'r dull teithio mwyaf poblogaidd ar gyfer ymweliadau dydd.

Ffig 3.4: Dull Teithio (Ymweliadau Dydd)




## 4. Defnydd Llety

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Defnydd Llety Twristiaeth Cymru. Mae canlyniadau yn yr adran hon yn defnyddio hen ddiffiniad rhanbarth y Gogledd nad oedd yn cynnwys Meirionnydd.

Yn rhanbarth y Gogledd y gwelwyd y defnydd uchaf o unedau hunanddarpar a gwlâu mewn hostel.


Ffig 4.1: Cyfradd defnydd dros amser




Mae defnydd ystafelloedd mewn gwestai ac unedau hunanddarpar wedi codi ychydig ers 2008, ond mae defnydd ystafelloedd mewn llety Gwely a Brecwast/Tai Llety wedi gostwng. Dim ond ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf y mae cyfraddau defnydd gwlâu mewn hostel wedi bod ar gael, ond maen nhw i'w gweld wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn.

Er nad yw lefel defnyddio ystafelloedd gwestai yn y Gogledd yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, mae lefelau defnyddio gwlâu mewn gwestai yn uwch nag unman arall yng Nghymru. Gallai hyn fod oherwydd bod cyfran uwch o ymwelwyr â'r Gogledd yno ar wyliau. Mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn teithio mewn parau neu fel teulu a bod y gyfran is o ymwelwyr busnes yn fwy tebygol o fod yn teithio ar eu pen eu hunain.

Ffig 4.2: Cyfradd defnydd, 2014




# 5. Economi

Daw data yn yr adran hon o Ystadegau Sector â Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall.


Yn rhanbarth y Gogledd, mae 27,700 o bobl wedi'u cyflogi yn y sector twristiaeth. Mae hyn yn cyfrif am 9.4% o'r holl swyddi yn yr ardal, neu ychydig mwy nag un allan o bob 11 swydd.

Ffig. 5.1: Cyflogaeth mewn Twristiaeth




Mae hyn ychydig yn fwy na chyfran y swyddi mewn twristiaeth ar lefel Cymru gyfan sy'n cyfrif am 9.3%, gan ddangos pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol. Mae cyfran y swyddi twristiaeth yn amrywio'n eang ar draws yr Awdurdodau Lleol yn y Gogledd. Yng Ngwynedd y ceir y gyfran uchaf o swyddi yn y sector twristiaeth (13.4%) ac yn Wrecsam y ceir y gyfran isaf (5.5%). Yn wir, gan Wynedd y mae'r gyfran uchaf o swyddi twristiaeth yng Nghymru a chan Wrecsam y mae'r isaf. Yn rhanbarth y Gogledd y mae'r Awdurdod Lleol sydd â'r ail gyfran uchaf o swyddi twristiaeth, sef Conwy (12.7%).

Ffig. 5.2: Cyfran y Swyddi mewn Twristiaeth fesul Awdurdod Lleol



Mae cyflogaeth mewn twristiaeth yn y Gogledd wedi codi dros y 10 mlynedd diwethaf, o 24,500 yn 2005 i 27,700 yn 2014. Mae cyflogaeth mewn twristiaeth hefyd wedi codi fel cyfran cyfanswm y swyddi, o 8.2% i 9.4%.

Ffig 5.3: Newid mewn Cyflogaeth Twristiaeth dros Amser




## 6. Stoc gwlâu


Daw data yn yr adran hon o'r adroddiad Stoc Gwlâu. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2013 oni nodir fel arall.

Yng Ngwynedd y ceir cyfran fwyaf stoc gwlâu'r Gogledd, gan ddarparu 22% o'r gwlâu i dwristiaid a 23% o'r sefydliadau yng Nghymru, yn fwy o'r ddau nag unrhyw Awdurdod Lleol arall ac eithrio Sir Benfro. Mae cyfran ychydig yn uwch ar gyfartaledd o wlâu carafanio a gwersylla yn y Gogledd, ac mae cyfran gyfatebol ychydig yn is na'r cyfartaledd o fathau eraill o lety.


Ffig. 6.1: Gwlâu Twristiaeth





Ffig 6.2 Gwlâu Llety â Gwasanaeth



Ffig. 6.3: Gwlâu Hunanddarpar




Ffig. 6.4 Gwlâu mewn Gwersyll/Carafán




Mae'r Gogledd yn darparu 51% o'r holl wlâu i dwristiaid ac mae'r rhan fwyaf ohonynt mewn carafán/ gwersyll. Mae hyn yn cynnwys lleoedd mewn carafannau statig yn ogystal â lleiniau ar gyfer pebyll a charafannau teithiol.

O'r Awdurdodau Lleol yn y Gogledd, Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o bob math o lety ac eithrio llety â gwasanaeth. Wrecsam sydd â'r gyfran isaf. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canlyniadau a nodwyd uchod o ran cyflogaeth, ac mae'n dynodi pwysigrwydd cymharol twristiaeth i ardaloedd yr Awdurdod Lleol.

Mae 4,736 o sefydliadau yn y Gogledd yn cynnig llety i dwristiaid ac mae 282,798 o wlâu ar gael ynddyn nhw.